Safonau Gwasanaeth – System Apwyntiadau

Datganiad o genhadaeth Tai Ceredigion

“Bod yn landlord ac yn gyflogwr dwyieithog o’r radd flaenaf sy’n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy’n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a’r economi leol”.

Safon

Yn Tai Ceredigion rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon i bob un o’n cwsmeriaid. Felly:

Byddwn:

- yn cynnig apwyntiad i chi pan fyddwch yn ein ffonio gyda chais dilys am waith cynnal a chadw ymatebol;
- yn cynnig apwyntiadau bore (8yb - 12yh) neu brynhawn (1yh - 4yh) yn unig;
- yn gwneud ein gorau glas i roi apwyntiad addas i chi, sy’n cyd-fynd â’ch anghenion;
- yn eich ffonio’n ddiweddarach i gadarnhau eich apwyntiad;
- yn cysylltu â chi cyn gynted ag sy’n bosibl os na allwn gadw apwyntiad.

Rhaid i chi:

- fod yn barod i gydweithio â ni a nodi pryd y byddwch gartref neu drefnu bod unigolyn cyfrifol a enwir gennych chi yn ein gadael i mewn i’ch cartref
- sicrhau bod apwyntiadau a drefnwyd yn cael eu cadw bob amser (oni bai eich bod yn cael gwybodaeth fel arall).

At hynny gellir gwneud cais am waith atgyweirio trwy ein gwasanaeth ar-lein “TŷFi” ar ein gwefan, neu gallwch lawrlwytho’r ap i’ch ffôn symudol neu’ch llechen o’r App Store neu Google Search. Chwiliwch am “Tai Ceredigion”.

Apwyntiadau na chânt eu cadw

- dylech nodi y gallwn godi tâl am apwyntiadau na chânt eu cadw.
- os yw’r angen am waith atgyweirio wedi codi o ganlyniad i ddifrod a achoswyd gennych chi, aelod o’ch teulu neu ymwelydd â’ch cartref, bydd modd i ni godi tâl am y gwaith a bydd disgwyl i chi dalu am y gwaith. Caiff y prisiau eu seilio ar Restr Gyfraddau Tai Ceredigion, a chodir lleiafswm o £100 ynghyd â ffi weinyddu o 15% a TAW.

Mae copi o’n polisi ynghylch gwaith y gellir codi tâl amdano ar gael o ofyn am un, trwy ffonio 0345 606 7654 neu ebostio post@taiceredigion.cymru

Caiff y Safonau hyn eu hadolygu’n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd